

## Casgliad Data Digartrefedd

Pobl ddigartref mewn llety dros dro Ionawr 2024

Mae Gwasanaethau Ystadegol Llywodraeth Cymru yn casglu'r data yma. Mae'n ffynhonnell wybodaeth am nifer yr achosion o ddigartrefedd oedd angen llety dros dro yng Nghymru. Mae'r data yn cael eu defnyddio i gyfeirio polisiâu, ateb cwestiynau, mewn briffio ac mewn cyhoeddiadau Datganiad Cyntaf. Mae'n helpu i roi darlun o ddigartrefedd yn gyffredinol yng Nghymru a Phrydain Fawr.

Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language:

### Gwybodaeth am y darparwr

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd



#### Dolenni

#### Wedi ei gwblhau

<a href="#">Canllawiau technegol</a>	
<a href="#">Byrdwn wrth ymateb arolygon</a>	0%
<a href="#">Manylion cyswllt</a>	0%

#### Dolenni ffurflen

#### Tabl wedi ei gwblhau

#### Wedi pasio dilysiant

<a href="#">Tabl 1 &gt;&gt;</a>	31%	
<a href="#">Tabl 2 &gt;&gt;</a>	11%	<a href="#">Dilysu &gt;&gt;</a> 100%
<a href="#">Tabl 3 &gt;&gt;</a>	0%	
<a href="#">Tabl 4 &gt;&gt;</a>	0%	

Dychwelwch y ffurflen trwy Objective Connect cyn 9 Chwefror 2024

<https://secure.objectiveconnect.co.uk/>

E-bost: [casgliadautai@llyw.cymru](mailto:casgliadautai@llyw.cymru)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Llywio**

Byddwch yn gallu symud o ddalen i ddalen trwy glicio ar yr hyperddolen briodol. Er enghraifft, i ddychwelyd i'r hafan cliciwch yr hyperddolen "Yn ôl i'r Hafan".

**Eitemau data gofynnol**

Yn y daenlen hon, mae'r nodweddion canlynol i'r celloedd y mae angen data arnynt:



Bydd yr holl gelloedd y mae angen data arnynt yn cael eu lliwio'n glas golau.




Mae rhai celloedd yn deillio gwerthoedd o eitemau data eraill. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn.



Nid oes angen llenwi rhai celloedd am nad ydynt yn berthnasol. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd tywyll. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn.

**Os nad ydych yn gallu rhoi unrhyw eitem o ddata, gadewch y gell yn WAG. Peidiwch â rhoi testun (NA, N/A neu Heb ei gasglu ac ati) yn unrhyw gell ar wahân i'r celloedd sylwadau. Byddwn yn cymryd bod sero mewn unrhyw gell yn golygu cyfrif o sero ar gyfer yr eitem ddata hon.**

**Sylwadau**



Mae bwch gwyn wedi cael ei ddarparu gerllaw pob tabl ar gyfer sylwadau. Os oes unrhyw eitemau data ar goll yna mae'n rhaid ychwanegu sylw i'r daenlen.

**Dilysiad gwiriadau**

Mae dilysiad gwiriadau cynnwys gwirio am wallau synnwyr cyffredin. Mae'n rhaid datrys y gwallau hyn cyn cyflwyno'r daenlen trwy Afon.



Bydd eitemau data sy'n llwyddo yn y dilysu yn cael eu lliwio'n wyrdd.



Bydd eitemau data lle nad oes data'n cael ei ychwanegu, neu sy'n torri rheol ddiilysu, yn cael eu lliwio'n goch. Dylech roi sero lle mae'r eitem ddata yn ddim, neu roi sylw.



Bydd eitemau data sydd ar goll gyda sylw wedi ei roi yn cael eu lliwio'n ambr.

## Nodiadau Cyffredinol

[Back to Home Page](#)

- 0.1 Mae'r datganiad yn ymdrin â nifer y bobl ddigartref neu achosion unigol o ddigartrefedd, nid nifer yr aelwydydd.
- 0.2 Dechreuwyd casglu data ar y Llety a Ddarperir ar gyfer y Digartref a Chysgu Allan yn ystod pandemig Covid-19 o ganlyniad i'r ymateb iechyd brys uniongyrchol.
- 0.3 Mae'r casgliadau data rheoli misol hyn yn ymwneud â nifer yr unigolion sy'n profi digartrefedd ac sy'n cael eu cefnogi gan awdurdodau lleol i gael llety dros dro neu lety hirdymor addas, ac mae'r casgliadau llai aml ar ddigartrefedd statudol yn casglu data ar nifer yr aelwydydd.
- 0.4 Defnyddir yr wybodaeth rheoli misol hon yn helaeth yn fewnol i lywio polisiâu a phenderfyniadau ynghylch ariannu, drwy ddarparu gwybodaeth hanfodol ac amserol i gefnogi ein dealltwriaeth o'r pwysau parhaus a wynebwr yng Nghymru, a'r ffordd orau o ymateb i'r pwysau hyn.
- 0.5 Sylwer nad oes disgwyl i'r data yn Nhablau 1–3 ddod i gyfanswm o 100%, na 'darllen ar draws', gan eu bod yn casglu data am setiau gwahanol o unigolion a'u rhyngweithio â llety dros dro.

**Tabl 1: Pobl ddigartref wedi'u rhoi mewn llety dros dro yn ystod y cyfnod**

Nifer yr achosion o bobl yn cael eu rhoi mewn llety dros dro yn ystod y cyfnod, a'r rheswm dros y digartrefedd.

Nid yw achos o berson yn cael ei roi mewn llety dros dro yn cynnwys trosglwyddiadau rhwng gwahanol leoliadau llety dros dro. Dylid cynnwys person sydd wedi gadael llety dros dro ac sy'n cael ei roi mewn llety dros dro eto ar ôl ailgyflwyno o dan achos gwahanol o ddigartrefedd.

Rhowch y rheswm dros y digartrefedd a roddir ar yr adeg y cyflwynodd yr unigolyn ei hun i'ch gwasanaethau.

Dylid rhoi'r prif reswm dros y digartrefedd fel y'i casglwyd ar gyfer Cynllun Tai Personol (PHP) yr unigolyn neu drwy'r system brysbennu unigol. Os nad yw'r rheswm hwn ar gael, rhowch y prif reswm neu'r rheswm diweddaraf dros y digartrefedd yn ôl yr unigolyn neu'r swyddog tai/achos.

Y diffiniad o lety dros dro yw llety addas sy'n debygol o bara am lai na chwe mis, gan gynnwys llety â chymorth tymor byr. Dylech gynnwys llety a ystyrir fel arfer yn llety dros dro yn ôl y diffiniad hwn, ond a all bara am fwy na chwe mis oherwydd y galw uchel presennol am dai.

**Canllawiau ar gyfer categorïau'r rhesi:**

- Rhes 1** Wedi cael eu symud o'r stryd  
Ymgeiswyr sydd wedi cael cymorth i gael llety dros dro yn dilyn cyfnod o gysgu allan am o leiaf un noson. Mae hyn yn cynnwys cael cefnogaeth i gael llety gyda theulu a/neu ffrindiau.
- Rhes 2** Wedi bod yn syrffio soffas  
Ymgeiswyr sy'n cyflwyno yn dilyn cyfnod o fyw gyda theulu a/neu ffrindiau yn anffurfiol.
- Rhes 3** Wedi symud o lety anaddas  
Gall llety fod yn anaddas am unrhyw nifer o resymau (cyflwr ffisegol neu addasrwydd y llety, risg o drais ac ati) a bydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol. Defnyddiwch eich barn broffesiynol wrth benderfynu a yw llety yn anaddas. Mae rhai enghreifftiau o lety anaddas yn cynnwys:
- Pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty na allant fyw yn yr eiddo nes iddo gael ei addasu;
  - Pobl sy'n cael eu rhyddhau o uned seiciatrig neu ysbyty lle mae angen llety â chymorth ar yr unigolyn wrth adael gofal meddygol;
  - Materion amgylcheddol sy'n ymwneud â'r eiddo sy'n ei atal rhag cael ei feddiannu nes bod gwaith wedi'i wneud;
  - Gorlenwi, e.e. baban newydd-anedig, aelod o'r teulu sy'n dychwelyd, ac ati.
  - Perygl o drais gan unrhyw berson.
- Rhes 4** Pobl sy'n gadael y carchar  
Ymgeisydd nad oes ganddo lety wedi'i drefnu ymlaen llaw a/neu nad yw wedi cael llety sefydlog ers gadael y carchar ar unrhyw adeg yn ystod y chwe mis blaenorol.

- Rhes 5** Arall (nodwch niferoedd a rhesymau yn y sylwadau)  
Gall arall gynnwys:
- Digartref mewn argyfwng (er enghraifft ar ôl tân neu lifogydd);
  - Wedi dychwelyd o dramor
  - Unrhyw reswm arall dros fod yn ddigartref heb ei gynnwys yn y categorïau uchod.

**Canllawiau ar gyfer categorïau'r colofnau:**

**Noder: Os yw person yn cael ei roi mewn llety dros dro mwy nag unwaith, nodwch bob achos.**

**Colofn a** Cyfanswm  
Cyfanswm y bobl o bob oedran wedi'u rhoi mewn llety dros dro yn ystod y cyfnod. Dylid cynnwys yr holl unigolion sy'n ymgeiswyr arweiniol ac aelodau o aelwyd yr ymgeisydd arweiniol.

**Colofn b** Ffoi rhag cam-drin domestig  
Ymgeisydd sy'n bodloni'r diffiniad a nodir yn adran 58 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

**Colofn c** O dan 16 oed (plant dibynnol)  
Cyfanswm y bobl o dan 16 oed wedi'u rhoi mewn llety dros dro yn ystod y cyfnod.

**Colofn d** 16-24 oed  
Cyfanswm y bobl 16-24 oed wedi'u rhoi mewn llety dros dro yn ystod y cyfnod. Dylid cynnwys yr holl unigolion sydd yn y categori oedran hwn (nid ymgeiswyr arweiniol yn unig).

**Colofn e** Eisoes wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro yn y 12 mis diwethaf  
Cyfanswm y bobl sydd wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro mwy nag unwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Dylid cyfrif o 12 mis cyn dyddiad y tro diwethaf i'r unigolyn gael ei roi mewn llety dros dro.  
Defnyddir hyn i fesur achosion ailadroddus o ddigartrefedd, ac felly dylid cynnwys achlysuron lle mae unigolion wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro o dan wahanol achosion o ddigartrefedd, yn hytrach nag unigolion yn cael eu symud rhwng gwahanol leoliadau llety dros dro o dan yr un achos o ddigartrefedd (mae'r un achos o ddigartrefedd yn cynnwys os yw unigolion wedi cael eu symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn ystod yr un achos o ddigartrefedd).

**Colofn f** Rhoddwyd mewn llety dros dro am y tro cyntaf o fewn y 12 mis diwethaf  
Mae'r maes hwn yn cael ei gyfrifo'n awtomatig. Mae'n defnyddio'r fformiwla 'Cyfanswm - Eisoes wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro yn y 12 mis diwethaf' i gyfrifo nifer y bobl wedi'u rhoi mewn llety dros dro am y tro cyntaf yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Tabl 2: Pobl ddigartref a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod

Nifer y bobl ddigartref a roddwyd mewn llety dros dro ar 31 Ionawr yn ôl y math o lety.

Dylech gynnwys llety â chymorth a ddisbarthir fel llety dros dro o dan y math o ddarparwr, ond peidiwch â chynnwys llety â chymorth hirdymor nad yw'n cael ei ddisbarthu fel llety dros dro.

## Nodwch: Cofnodwch unigolion nid aelwydydd

## Canllawiau ar gyfer categorïau rhesi:

Rhes 1	<b>Gwely a brecwast a Gwestai</b> Dylai'r gwely a'r brecwast a'r gwestai gynnwys gwestai/tai llety preifat gyda rhai cyfleusterau a rennir. Ni ddylid cynnwys annexe gwesty sy'n cynnwys unedau llety hunangynhwysol lle na ddarperir prydau bwyd - dylid eu trin fel llety'r sector preifat. Mae llety gwely a brecwast / gwesty yn golygu llety a ddarperir yn fasnachol (p'un a yw brecwast wedi'i gynnwys ai peidio): (a) Sydd ddim yn eiddo ar wahan a hunangynhwysol; (b) Lle nad yw unrhyw un o'r amwynderau canlynol ar gael i'r ymgeisydd neu os yw'n cael ei rannu gan fwy nag un aelwyd: (i) Toiled; (ii) Cyfleusterau golchi personol; (iii) Cyfleusterau coginio. (c) Lle nad yw'n llety sy'n eiddo i awdurdod tai lleol, landlord cymdeithasol cofrestredig neu sefydliad gwirfoddol; neu (d) Lle nad yw'n sefydliad sydd wedi'i gofrestru o dan ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000
Rhes 2	<b>Parciau carafanau neu lety gwyliau tebyg</b> Yn cynnwys cartrefi symudol, fel carafanau, adeiladau dros dro, 'portacabins' a 'thrawsgludwyr'. <b>Hosteli (gan gynnwys canolfannau derbyn ac unedau brys)</b> Llety nad yw'n hunangynhwysol lle mae baddon/cawod, toiled y tu mewn, cegin, ystafell fyw ac efallai hyd yn oed gyfleusterau cysgu yn cael eu rhannu. Mae hostelau'n cynnwys llety a rennir, sy'n eiddo neu'n cael ei lesu a'i reoli gan naill ai awdurdod lleol, cymdeithas dai neu sefydliad di-elw, gan gynnwys canolfannau derbyn, unedau brys a llochesi nos. Dylid cynnwys llochesi gwrywaidd gyda hosteli.
Rhes 3	<b>Llochesi Menywod</b> Llety diogel i fenywod, gyda neu heb eu plant, yn dianc rhag cam-drin domestig. Cynnwys unedau gwasgareddig a ddarperir gan wasanaethau cam-drin domestig yma yn hytrach nag o dan lety sector preifat neu stoc LCC.
Rhes 4	<b>Llety y Sector Preifat</b> Dylai llety'r sector preifat gynnwys llety: • Yn uniongyrchol gyda landlord sector preifat, • Llety sector preifat o dan les gan eich awdurdod a, • Llety sector preifat ar les gan LCCau. Dylai llety'r sector preifat fod yn hunangynhwysol. Dylid cynnwys llety tebyg nad yw'n hunangynhwysol o dan hosteli.
Rhes 5	<b>O fewn eich stoc eich hun</b> Mae llety rhent ar gael ac yn cael ei dderbyn gan unrhyw Awdurdod Lleol. Rhaid iddo fod yn stoc ALI.
Rhes 6	<b>Stoc LCC</b> Mae llety rhent ar gael ac yn cael ei dderbyn drwy unrhyw landlord cymdeithasol cofrestredig (cymdeithas dai). Rhaid iddo fod yn stoc LCC.
Rhes 7	<b>Arall (nodwch beth)</b> Unrhyw fath arall o lety nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod. Cynnwys Digartrefedd Gartref. Ni ddylai eraill gynnwys tai â chymorth. Dylid cynnwys tai â chymorth o dan y math o ddarparwr (hostel, lloches ac ati). Rhowch fanylion yn y sylwadau ynghylch pa fathau o lety a rhifau sydd wedi'u cynnwys.
Rhes 8	<b>Canllawiau ar gyfer categorïau'r colofnau:</b>
Colofn a	<b>Cyfanswm</b> Cyfanswm y bobl o bob oed sydd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod. Cynhwyswch y prif ymgeisydd a holl aelodau aelwyd y prif ymgeisydd.
Colofn b	<b>O dan 16 oed (plant dibynnol)</b> Cyfanswm y bobl o dan 16 oed sydd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod.

**Tabl 3: Y digartref wedi'u symud yn llwyddiannus i lety hirdymor addas yn ystod y**[Link to Home Page](#)**Noder: Cofnodwch bobl yn hytrach na chartrefi**

Dylid cynnwys pob person wedi'i symud ymlaen yn llwyddiannus o bob math o lety dros dro. Peidiwch â chynnwys unigolion sy'n cael eu symud rhwng gwahanol fathau o lety dros dro.

Dylai pobl sy'n cael eu symud i lety hirdymor addas yn union ar ôl cael eu hasesu (heb symud i lety dros dro) gael eu cynnwys hefyd.

Dylid cynnwys pobl sy'n ddigartref ond sydd wedi gwrthod neu wedi gadael llety dros dros, neu bobl nad ydynt yn byw mewn llety dros dro am resymau eraill (ac sydd efallai yn syrffio soffas neu'n ddigartref gartref) sydd wedi cael eu symud ymlaen i lety hirdymor addas.

Ni ddylid cynnwys achosion lle mae digartrefedd wedi'i atal, a bod pobl naill ai'n gallu aros gartref neu symud i lety hirdymor addas heb ddod yn ddigartref.

**Canllawiau ar gyfer categorïau'r rhes:**

<b>Rhes 1</b>	Cyfanswm y bobl ddigartref wedi'u symud i lety hirdymor addas Y diffiniad o lety tymor hi yw llety addas sy'n debygol o bara am chwe mis neu fwy.
<b>Rhes 2</b>	Nifer y bobl a adawodd lety dros dro yn wirfoddol Pobl ddi-gartref a adawodd lety dros dro yn wirfoddol ac na chawsant eu symud i lety tymor hir. Peidiwch â chynnwys pobl a adawodd lety dros dro yn anwirfoddol neu â chanlyniadau negyddol.

**Canllawiau ar gyfer categorïau colofnau:**

<b>Colofn a</b>	Cyfanswm Cyfanswm y bobl o bob oedran wedi'u symud yn llwyddiannus i lety hirdymor addas yn ystod y cyfnod. Dylid cynnwys yr holl unigolion sy'n ymgeiswyr arweiniol ac aelodau o aelwyd yr ymgeisydd arweiniol.
<b>Colofn b</b>	Dan 16 oed Cyfanswm y bobl o dan 16 oed wedi'u symud yn llwyddiannus i lety hirdymor addas yn ystod y cyfnod.

**Tabl 4: Nifer y bobl sy'n cysgu allan ar ddiwedd y**

Dyma gipolwg ar yr unigolion sy'n cysgu allan ar ddiwrnod olaf y mis. Dim ond unigolion sy'n cysgu allan ar y noson hon y dylech eu cynnwys, nid unigolion sydd wedi bod yn cysgu allan ar adegau eraill o'r mis. Dylai data fod yn seiliedig ar wybodaeth leol.

Dylid gynnwys yr holl unigolion sy'n cysgu allan, gan gynnwys pobl nad ydynt yn ddigartref neu sydd â mynediad i lety dros dro, pobl sy'n cysgu allan yn y tymor hir a phobl sydd wedi gwrthod cymorth gan yr awdurdod lleol.

<b>Rhes 1</b>	Cyfanswm y bobl sy'n cysgu allan Y diffiniad o bobl sy'n cysgu allan yw pobl sy'n cysgu dros nos yn yr awyr agored (fel mewn drysau siopau, cysgodfeydd bysiau neu barciau) neu mewn adeiladau, cerbydau neu fannau eraill nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer byw ynddynt (megis grisiau, ysguboriau, siediau, meysydd parcio, pebyll, ceir/faniau).
---------------	--

## Manylion cyswllt

Pobl ddigartref mewn llety dros dro Ionawr 2024

DEWISWCH

[Yn ôl i'r Hafan](#)

Rhowch fanylion cyswllt eich awdurdod neu RSL isod. Bydd hyn yn ein helpu ni i gyfeirio unrhyw ymholiadau at y cyswllt cywir

### Ffurflen wedi'i chwblhau gan/Prif gyswllt ymholiadau data:

	D1
Enw	X
Rhif ffôn	X
Cyfeiriad E-Bost	X

### Manylion cyswllt eraill

Enw	X
Rhif ffôn	X
Cyfeiriad E-Bost	X

## Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon

Pobl ddigartref mewn llety dros dro Ionawr 2024

DEWISWCH

[Yn ôl at yr Hafan](#)

**Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r baich ar awdurdodau lleol sy'n cwblhau'r ffurflenni data. Mae hyn yn ein helpu ni i gynllunio newidiadau yn y dyfodol i ffurflenni casglu data. Fe fyddem yn gwerthfawrogi os gallech chi ein helpu ni drwy gwblhau'r tabl isod.**

Cofnodwch yr amser a gymerodd i chi (ac unrhyw gydweithwyr) ddarparu ac anfon y ffurflen. Efallai bod nifer o staff sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi gwahanol wedi cymryd rhan. Rydym yn gofyn i chi gyfrif yr oriau mae staff wedi'u dreulio ar gyfer pob band cyflog blynyddol cyfwerth ag amser llawn wedi'i ddangos isod. Fe fyddwch angen talgrynnu cyflogau staff i'r £1,000 agosaf. Cofnodwch eich amser i'r awr agosaf.

Cynhwyswch amser sydd wedi'i dreulio ar weithgareddau yn darparu ac anfon y ffurflen hon, megis:

- Adalw a chadw'r ffurflen wag;
- Casglu, coladu, dadansoddi ac agregu cofnodion ffigyrau sydd angen;
- Llenwi, gwirio, diwygio, adolygu ac, ar ôl ei gwblhau, cymeradwyo'r ffurflen; ac
- Anfon y ffurflen i Gyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cymru trwy AFON.

Gradd y staff	Oriau wedi'u cymryd	D1
Band 1 (£11,500 - £19,999)		X
Band 2 (£20,000 - £26,999)		X
Band 3 (£27,000 - £33,999)		X
Band 4 (£34,000 - £53,999)		X
Band 5 (£54,000+)		X

Sylwad



**Tabl 1: Pobl ddigartref a leolwyd mewn llety dros dro yn ystod y cyfnod**

Pobl ddigartref mewn llety dros dro Ionawr 2024  
DEWISWCH

Nifer yr achosion o bobl yn cael eu rhoi mewn llety dros dro yn ystod y cyfnod, a'r rheswm dros y digartrefedd.

**Nodwch: Os bydd unigolyn yn cael ei leoli mewn llety dros dro fwy nag unwaith, cofnodwch bob tro mae'n digwydd.**

	Cyfanswm	O'r rhain:					D1	D2	D3	D4	D5	D6	Sylwad
		Y nifer sy'n dianc rhag cam-drin domestig	O dan 16 oed (plant dibynnol)	16 i 24 oed	Eisoes wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro yn y 12 mis diwethaf (cyfrif pob person gyda ailadrodd digwyddiad)	Rhodddwyd mewn llety dros dro am y tro cyntaf o fewn y 12 mis diwethaf							
1 Wedi'u symud oddi ar y stryd						0	✗	✗	✗	✗	✗	✓	
2 Gynt yn cysgu ar soffas pobl eraill						0	✗	✗	✗	✗	✗	✓	
3 Wedi'u symud o lety amhriodol arall						0	✗	✗	✗	✗	✗	✓	
4 Pobl sy'n gadael carchar						0	✗	✗	✗	✗	✗	✓	
5 Arall (nodwch)						0	✗	✗	✗	✗	✗	✓	
6 Cyfanswm	0	0	0	0	0	0	✓	✓	✓	✓	✓	✓	

**Sylwad**

**Tabl 2: Pobl ddigartref a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod**

Pobl ddigartref mewn llety dros dro Ionawr 2024

DEWISWCH

Nifer y bobl ddigartref a roddwyd mewn llety dros dro ar 31 Ionawr yn ôl y math o lety.

[Yn ôl i'r Hafan](#)

**Nodwch: Cofnodwch unigolion nid aelwydydd**

Dilysiant yn erbyn ffigurau'r mis diwethaf

	Cyfanswm	O'r rhain: O dan 16 oed (plant dibynnol)	Dilysiant yn erbyn ffigurau'r mis diwethaf		Cyfanswm	O'r rhain: O dan 16 oed (plant dibynnol)	D3	D4	Sylwad
			D1	D2					
	a	b	a	b	a	b	a	b	
1 Gwely a brecwast a Gwestai			✗	✗	Dim data	Dim data	✓	✓	
2 Meysydd Carafanau neu lety gwyliau tebyg			✗	✗	Dim data	Dim data	✓	✓	
3 Hostelau (gan gynnwys canolfannau derbyn ac unedau argyfyngau)			✗	✗	Dim data	Dim data	✓	✓	
4 Lloches i ferched			✗	✗	Dim data	Dim data	✓	✓	
5 Llety sector preifat			✗	✗	Dim data	Dim data	✓	✓	
6 O fewn eich stoc eich hun			✗	✗	Dim data	Dim data	✓	✓	
7 Stoc RSL			✗	✗	Dim data	Dim data	✓	✓	
8 Arall (nodwch)			✗	✗	Dim data	Dim data	✓	✓	
9 Cyfanswm	0	0	✓	✓	Dim data	Dim data			

**Sylwad**

**Tabl 3: Pobl ddigartref a symudwyd yn llwyddiannus i lety priodol hir dymor yn ystod y cyfnod**

Pobl ddigartref mewn llety dros dro Ionawr 2024

DEWISWCH

**Nodwch: Cofnodwch unigolion nid aelwydydd**

[Yn ôl i'r Hafan](#)

	Cyfanswm	O'r rhain: O dan 16 oed (plant dibynnol)	D1	D2	Sylwad
	a	b	a	b	
1 Cyfanswm nifer y bobl ddigartref a symudodd i lety priodol hir dymor			X	X	
2 Y nifer a wirfoddolodd i adael llety dros dro			X	X	

**Sylwad**

--

**Tabl 4: Y rheini a oedd yn cysgu allan ar ddiwedd y cyfnod**

Pobl ddigartref mewn llety dros dro Ionawr 2024

DEWISWCH

Dyma gipolwg ar yr unigolion sy'n cysgu allan ar ddiwrnod olaf y mis.

[Yn ôl i'r Hafan](#)

**Nodwch: Cofnodwch unigolion nid aelwydydd**

	Cyfanswm	D1	Sylwad
	a	a	
1 Cyfanswm nifer y bobl ddigartref sy'n cysgu allan			

**Sylwad**